*This document is available in English*

**Eitem ar yr agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Prif Swyddog Tân (01745) 535253** |
| Pwnc | **Trefniadau Cyllid a Llywodraethu ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynigion Llywodraeth Cymru i newid y trefniadau cyllid a llywodraethu ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd, daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 5 Chwefror 2019. Deellir y bydd Llywodraeth Cymru, ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn rhoi ei hymateb ei hun maes o law. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud y gallai'r gwaith dadansoddi gymryd mwy na'r disgwyl oherwydd bod nifer fawr o ymatebion.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad ac yn cael adroddiad pellach maes o law unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr wybodaeth hon.

**CEFNDIR/GWYBODAETH**

5 Bydd yr aelodau'n cofio nifer o adroddiadau blaenorol yn rhoi gwybod iddynt am fwriad a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i drefniadau ariannol a llywodraethu'r ATAau yng Nghymru.

6 Roedd adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod ar 17 Rhagfyr 2018 yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar "Ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru" wedi cael ei gyhoeddi ar 13 Tachwedd 2018. Hefyd, roedd yr Aelodau'n derbyn argymhelliad i gynnal gweithdy ym mis Ionawr 2019 i ystyried ymateb yr Awdurdod i'r Papur Gwyn.

7 Ar 15 Ionawr 2019, fe wnaeth 14 o Aelodau fynychu'r Gweithdy. Yna, lluniwyd ymateb ffurfiol, cafodd ei gymeradwyo gan Gadeirydd yr Awdurdod a'i gyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 5 Chwefror 2019. Mae copi o ymateb yr Awdurdod yn Atodiad 1.

8 Ar 20 Chwefror 2019, fe wnaeth Cadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â'r Prif Swyddog Tân, fynychu cyfarfod â Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru. Yn bresennol hefyd, roedd Cadeiryddion a Phrif Swyddogion y ddau ATA arall yng Nghymru, cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion o Lywodraeth Cymru. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol wybod bod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn wedi ennyn nifer fawr o ymatebion (dros 60) felly mae'n bosibl y bydd y gwaith dadansoddi'n cymryd mwy o amser na'r arfer. Ar ôl y gwaith dadansoddi, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb. Yna, cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r arwyddion cynnar sydd wedi dod o'r ymgynghoriad.

9 Bydd Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân yn rhoi gwybodaeth bellach ar lafar yn y cyfarfod heddiw ynglŷn â'r drafodaeth honno.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Nid oes dim, ar hyn o bryd. |
| Cyllideb | Gallai newid trefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod effeithio ar sefyllfa cyllideb yr Awdurdod yn y dyfodol. Ni chyllidebwyd ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw gyngor cyfreithiol a allai fod yn angenrheidiol. |
| Cyfreithiol | Mae problemau cyfreithiol posibl ynglŷn â newidiadau i Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995, neu ynglŷn â'i ddiddymu. Mae'n bosibl y bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol yn nes ymlaen. |
| Staffio | Nid oes dim, ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes dim, ar hyn o bryd. |
| Risgiau | Gallai unrhyw newid i drefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau priodol i'r gymuned yng Ngogledd Cymru, yn enwedig os yw'n amharu ar sefyllfa'r gyllideb. |